# Cardiau-post micro-gymwysterau o'r Gwledydd: digwyddiad rhannu arfer gyda ffocws ar ddatblygiad micro-gymwysterau ledled y DU.

# Crynodeb o'r digwyddiad

## Rhagarweiniad

Cynhaliodd y Grŵp Diddordeb Arbennig Micro-Gymwysterau (MIC.SIG) weminar ddeinamig a llawn mewnweledIad ar 3ydd Mehefin 2025, gan ddod ag addysgwyr o bob cwr o'r DU ynghyd i archwilio tirwedd esblygol micro-gymwysterau. Cadeiriwyd y digwyddiad gan Steve Osborne, Cadeirydd MIC.SIG a Phrif Ddarlithydd Datblygiad Proffesiynol a'r Gweithlu, ym Mhrifysgol Metropolitan Caerdydd. Pwysleisiodd y digwyddiad bwysigrwydd cydweithio, arloesedd, ac aliniad  strategol polisïau'r gwledydd cartref wrth ddatblygu cyfleoedd dysgu hyblyg o ansawdd uchel sy'n ymateb i anghenion dysgwyr a chyflogwyr.

## Cyflwyniadau

Roedd y weminar yn cynnwys cyfres o sgyrsiau cyflym gan ddarparwyr addysg drydyddol ledled y DU, pob un yn arddangos ymagweddau unigryw at ddatblygu a gweithredu micro-gymwysterau.

### Prifysgol Abertawe

Agorodd Casey Hopkins, Uwch Ddarlithydd ym Mhrifysgol Abertawe, y sesiwn gyda throsolwg o Athrofa Codio Cymru a'i rôl mewn gwella sgiliau digidol trwy ficro-gymwysterau. Tynnodd sylw at lwyddiant tri phrosiect sylweddol, a oedd gyda'i gilydd wedi ymgysylltu â thros 1,100 o ddysgwyr. Roedd y mewnwelediadau allweddol yn cynnwys pwysigrwydd dylunio cyrsiau wedi'u llywio gan ddiwydiant, modelau cyflwyno hybrid, a photensial micro-gymwysterau i ehangu cyfranogiad - yn enwedig ymhlith menywod a dysgwyr sy'n oedolion. Aeth Casey hefyd i'r afael â heriau fel prosesau cymeradwyo cyrsiau, ymgysylltiad dysgwyr, a'r angen am allu pentyrru a chludo micro-gymwysterau.

### Coleg Cambria

Rhannodd Emma Hurst, Deon Mynediad ac AU yng Ngholeg Cambria, sut mae ei choleg yn mynd ati i integreiddio micro-gymwysterau'n strategol trwy fenter *HN Flex* Pearson. Gan ganolbwyntio ar ddysgu modiwlaidd, pwysleisiodd Emma rôl partneriaethau â chyflogwyr wrth lunio'r cwricwlwm a photensial micro-gymwysterau i gefnogi dysgwyr sy'n oedolion ac ehangu mynediad at addysg uwch. Mae cynllun cyflwyno graddol y Coleg yn cynnwys meysydd pwnc fel gofal iechyd, peirianneg, technolegau digidol a busnes, gyda phwyslais cryf ar hyblygrwydd, personoli a chost-effeithiolrwydd.

## Prifysgol Metropolitan Caerdydd

Cyflwynodd Hannah Amos, Cyfarwyddwr Rhaglen Arfer Uwch mewn Gofal Iechyd a Micro-gymwysterau ym Mhrifysgol Metropolitan Caerdydd, Fframwaith Micro-gymwysterau Arfer Uwch y Brifysgol ar gyfer proffesiynwyr gofal iechyd. Wedi'i chynllunio i gynorthwyo ymarferwyr sy'n gweithio, mae'r rhaglen yn cynnig modiwlau hyblyg, y gellir eu pentyrru, sy'n alinio â phedair colofn arfer uwch. Tanlinellodd Hannah bwysigrwydd dysgu rhyngbroffesiynol, dylunio sy'n canolbwyntio ar y dysgwr, a rôl micro-gymwysterau wrth alluogi effaith uniongyrchol yn y gweithle. Trafododd hefyd y derbyniad cadarnhaol gan gyrff proffesiynol a'r angen am fodelau cyflawni cynaliadwy, y gellir addasu eu maint.

## Coleg Caeredin

Dangosodd Sheila Godfrey, Darlithydd, a Nikki Mealyou, Arweinydd Cwricwlwm, Ansawdd o Goleg Caeredin eu gwaith arloesol wrth ddatblygu micro-gymwysterau achrededig gan Fframwaith Cymwysterau'r Alban (SCQF) sy'n canolbwyntio ar feddwl creadigol a beirniadol. Mae eu dull yn cefnogi dysgwyr ac addysgwyr fel ei gilydd, gyda phwyslais cryf ar ddatblygiad addysgeg a dysgu cydweithredol. Mae'r rhaglen wedi cael ei mabwysiadu'n eang ar draws sectorau, gan gynnwys ysgolion, addysg gymunedol a sefydliadau cenedlaethol, ac mae wedi cael ei chydnabod am ei heffaith ar ymgysylltiad a dargadwedd dysgwyr.

## Southern Regional College

Tynnodd Libby Shackles o'r *Southern Regional College* yng Ngogledd Iwerddon sylw at rôl hybiau cwricwlwm a darlithwyr arbenigol wrth ysgogi datblygiad micro-gymwysterau sy'n ymatebol i gyflogwyr. Gyda ffocws ar Dech. Gwyb. a gwyddorau bywyd, pwysleisiodd Libby bwysigrwydd hyblygrwydd, cyd-ddylunio, a throsglwyddo gwybodaeth wrth fynd i'r afael â bylchau sgiliau rhanbarthol a chefnogi datblygiad economaidd.

## Prifysgol Bangor

Daeth Lois McGrath o Brifysgol Bangor â'r sesiwn i ben trwy fyfyrio ar daith y Brifysgol o ran gwreiddio micro-gymwysterau yn ei strategaeth dysgu gydol oes. Trafododd yr heriau gweithredol, pwysigrwydd cydweithio mewnol, a'r angen am aliniad strategol â pholisi cenedlaethol. Pwysleisiodd Lois hefyd rôl micro-gymwysterau wrth wella ymgysylltiad cyflogwyr a chefnogi dilyniant dysgwyr.

# Casgliad

Daeth y weminar i ben gyda galwad am gydweithio parhaus, buddsoddiad strategol, a diogelu safonau ansawdd wrth ddarparu micro-gymwysterau. Tanlinellodd y sesiwn botensial trawsnewidiol micro-gymwysterau wrth adeiladu system addysg drydyddol fwy cynhwysol, ymatebol, a pharatoi ar gyfer y dyfodol.

Roedd y weminar yn rhan o gyfres o weithgareddau wedi'u hwyluso gan y Grŵp Diddordeb Arbennig Micro-gymwysterau (MIC.SIG) - gweithgor trydyddol ar gyfer micro-gymwysterau ar draws Cymru, Gogledd Iwerddon a'r Alban a ariennir gan Medr.

Medr
Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

Cyhoeddwyd – 6 Mehefin 2025

© Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch 2025
Rhifau elusen gofrestredig 1062746 a SC037786
[www.qaa.ac.uk](http://www.qaa.ac.uk)